# DEDDF CWRICWLWM AC ASESU (CYMRU) 2021

## EXPLANATORY NOTES

### SYLWEBAETH AR YR ADRANNAU

### Rhan 5 Addysg Ôl-Orfodol Mewn Ysgolion a Gynhelir

131. Cyn i'r Ddeddf hon ddod i rym, nodwyd y trefniadau cwricwlwm i ddisgyblion cofrestredig mewn ysgolion a gynhelir yng Nghymru yn Rhan 7 o Ddeddf Addysg 2002 ("Deddf 2002"). Roedd Rhan 7 o Ddeddf 2002 yn gymwys mewn perthynas â disgyblion sy'n h#n na'r oedran ysgol gorfodol (16 - 18 oed), yn ogystal ag mewn perthynas â disgyblion 3 - 16 oed.

132. Mae'r Ddeddf hon yn diddymu Rhan 7 o Ddeddf 2002. Nodir y trefniadau cwricwlwm newydd i ddisgyblion sy'n 3 – 16 oed yn Rhan 2, a nodir y rheini i ddisgyblion sy'n 16 – 18 oed yn y Rhan hon.

### *Adran 58 – Cyflwyniad a dehongli*

133. Mae'r adran hon yn disgrifio cynnwys Rhan 5. Nid yw'r Rhan ond yn gymwys mewn perthynas â disgyblion mewn ysgolion a gynhelir sy'n h#n na'r oedran ysgol gorfodol.

### *Adran 59 – Gofyniad cwricwlwm cyffredinol*

134. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth a chorff llywodraethu ysgol a gynhelir sicrhau bod y cwricwlwm i ddisgyblion sy'n h#n na'r oedran ysgol gorfodol yn gwricwlwm cytbwys ac eang—

   - sy'n hybu datblygiad ysbrydol, moesol, diwylliannol, meddyliol a chorfforol y disgyblion a'r gymdeithas, ac
   - sy'n paratoi'r disgyblion ar gyfer cyfleoedd, cyfrifoldebau a phrofiadau bywyd yn ddiweddarach.

135. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau cwricwlwm o'r math hwn i ddisgyblion sy'n h#n na'r oedran ysgol gorfodol ym mhob ysgol y mae'r awdurdod yn ei chynnal. Ac mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i Weinidogion Cymru arfer eu swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau cwricwlwm o'r math hwn i ddisgyblion sy'n h#n na'r oedran ysgol gorfodol ym mhob ysgol a gynhelir yng Nghymru.

### *Adran 60 – Gofyniad cwricwlwm: Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb*

136. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth ysgol a gynhelir ddarparu addysgu a dysgu mewn ACRh pan fo disgybl sy'n h#n na'r oedran ysgol gorfodol wedi gofyn amdano. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau y darperir yr addysgu a dysgu hwn os gofynnir amdano.

### *Adran 61 – Gofyniad cwricwlwm: Crefydd, Gwerthoedd a Moeseg*

137. Mae'r adran hon yn ei gwneud yn ofynnol i bennaeth ysgol a gynhelir ddarparu addysgu a dysgu mewn CGM pan fo disgybl sy'n h#n na'r oedran ysgol gorfodol wedi gofyn amdano. Mae hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i'r corff llywodraethu arfer ei swyddogaethau gyda golwg ar sicrhau y darperir yr addysgu a dysgu hwn os gofynnir amdano.

138. Mae is-adran (3) yn ei gwneud yn ofynnol i'r addysgu a dysgu a ddarperir o dan yr adran hon adlewyrchu'r ffaith mai Cristnogol yn bennaf yw'r traddodiadau crefyddol yng Nghymru, ond hefyd ystyried prif grefyddau eraill (nad ydynt yn rhai Cristnogol) yng Nghymru. Rhaid i'r addysgu a dysgu hefyd adlewyrchu'r ffaith y delir ystod o argyhoeddiadau athronyddol nad ydynt yn grefyddol (megis anffyddiaeth) yng Nghymru. Mae'r dull hwn yn adlewyrchu gofynion y Confensiwn Ewropeaidd ar Hawliau Dynol (yr "CEHD").

139. Nid yw adran 61 o'r Ddeddf yn atal ysgol rhag gosod gofyniad bod pob disgybl yn ei chweched dosbarth yn ymgymryd â dosbarthiadau CGM gorfodol; nid yw ychwaith yn atal ysgol sy'n mabwysiadu'r dull hwn rhag darparu CGM gorfodol i'r chweched dosbarth sy'n cyd-fynd â gweithredoedd ymddiriedolaeth yr ysgol, neu ddaliadau ei chrefydd neu ei henwad crefyddol ("CGM enwadol"). Mater i'r ysgol o hyd yw cynnwys CGM enwadol o'r fath.

### *Adran 62 – Gofynion cwricwlwm pellach*

140. Mae'r adran hon yn nodi bod darpariaethau eraill ynghylch y cwricwlwm i ddisgyblion mewn ysgolion a gynhelir sy'n h#n na'r oedran ysgol gorfodol yn adrannau 33A-33O o Ddeddf Dysgu a Sgiliau 2000. Mae'r darpariaethau hynny yn ei gwneud yn ofynnol creu cwricwla lleol i'r disgyblion hynny.